

## Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd

Ddydd Iau 7 Mehefin 2018

yn

Hwb Dinbych am 17:30

### Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol

Tim Faire (Cadeirydd)  
Gwen Butler (Is-Gadeirydd)  
Jo Hughes  
Paul Frost  
Cyngorydd Don Milne  
Heather Fitzgerald  
Hilary Davies  
Chris Marshall  
Kay Culhane  
Iona Pierce  
Duncan Barratt

### Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Hannah Arndt (Swyddog Mynediad ac Ysgrifennydd y FfMLI)  
Adrian Walls (Rheolwr Hawliau Tramwy)

### Yn Cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sian Williams (Swyddog Mynediad)  
Caroline Turner (Swyddog Map Swyddogol)  
Victoria Currie

### Arsylwyr

Paul Mitchell (CNC)  
Tom Culhane

### Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth: -

Hugh Crosswood, Jim Gaffney, Toni Mayne, Cyngorydd Martyn Holland, Kevin Slattery, Max Grant, John Buckley, Tom Woodall, Howard Sutcliffe.

### Camau Gweithredu a Nodiadau o'r Cyfarfod Diwethaf

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Rhestrod HA yr ymddiheuriadau a dderbyniwyd. Dywedodd y cadeirydd fod yr holl aelodau yn dymuno gwellhad buan i Max Grant.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd nodiadau'r cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.

Cynigiwyd fel cofnod cywir gan Gwen Butler ac eiliwyd gan y Cyng. Don Milne. Roedd y camau gweithredu a godwyd yn y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn;

### Materion yn codi

| Pwynt Gweithredu | Manylion Gweithredu   | Sefyllfa Gyfredol  |
|------------------|---|--|
| PG 7.1           | HA i ailddosbarthu rhestr yr aelodau a gofyn am wybodaeth gefndirol i'r rheiny nad oeddent wedi'u darparu eisoes. | HA wedi cysylltu â'r rhai sydd eto i ddarparu gwybodaeth gefndirol.  |
| PG 6.1           | HA a GB i ddrafftio llythyr i Hannah Blythyn ynglŷn â cholli arian Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.                 | Cynigwyd cefnogaeth i Gadeirydd FfMLI yng Nghymru gan FfMLIDCSDd. Roedd y mwyafrif o bwyntiau wedi'u hateb yn y 4 llythyr at Hannah Blythyn o FfMLI eraill. Roedd HA wedi amlygu'r mater gyda HS sy'n cwrdd â Hannah Blythyn yn rheolaidd. |

## **Ymgyrch 'Take the Lead'**

### **– Cyflwyniad gan Rachel Jones o AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**

Mae'r Dog's Trust yn credu bod tua 9 miliwn o gŵn anwes yn y DU. Mae tîm AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr sydd am gael mynediad i gefn gwlad, gan gynnwys ein parciau gwledig gyda'u cŵn anwes. Fel ceidwaid cefn gwlad, rydyn ni'n cydnabod bod cerdded cŵn yn un o'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd y mae ymwelwyr â'n safleoedd yn eu mwynhau, ond mae hyn hefyd yn arwain at gynnydd mewn baw cŵn, ofni cŵn - boed hynny'n blant neu oedolion sy'n ofni cŵn, neu berchnogion cŵn sy'n bryderus ynghylch ymddygiad cŵn eraill a phoenyddio da byw.

Y llynedd, cyfarfu'r tîm ceidwaid â PONT, Tîm Troseddau Gwledig Heddlu Gogledd Cymru, cyngorwyr lleol a thîm cyfathrebu Cyngor Sir Ddinbych i lunio ymgyrch gyda'i gilydd i fynd i'r afael â pherchnogaeth gyfrifol o gŵn wrth gerdded yng nghefn gwlad gyda ffocws penodol ar Barc Gwledig Moel Famau.

Roedd yr ymgyrch hon yn cynnwys postio yn y cyfryngau cymdeithasol gyda ffilmiau byr, defnyddio cyfweiliadau â cheidwaid, porwyr lleol a'r heddlu. Hefyd cafwyd datganiadau i'r wasg ac ymgyrch bosteri ym Moel Famau ar hyd y llwybrau. Mae'r ceidwaid wedi treulio amser yn siarad â pherchnogion cŵn, gan esbonio'r materion ac yn eu haddysgu ar ganlyniadau ymosodiadau gan gŵn. Nid yw llawer yn sylweddoli y gall yr heddlu ofyn am orchymyn llys i ddinistrio ci yn dilyn ymosodiad.

Mae ein tîm yn gwybod am 6 o ddefaid a gafodd eu hanafu neu eu lladd ar Foel Famau a phâr a fu farw o ddamweiniau traffig ffyrdd yn 2017. Wrth siarad â pherchnogion cŵn, canfuom fod llawer o ymwelwyr wedi gweld y cyfryngau cymdeithasol a'r datganiadau i'r wasg.

Mae'r ceidwaid nawr yn gweld llawer mwy o gŵn ar dennyn, ond pan ystyriwch nifer y cŵn sy'n cael eu cerdded i fyny Moel Famau, dim ond ychydig o berchnogion anghyfrifol sydd ei angen arnoch o 100 o gerddwyr cŵn i gael digwyddiad o gŵn yn poenyddio. Mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau y gwêl Rachel yn ymwneud â rhedeg ar ôl cŵn ar ôl iddynt ffoi wrth ddod allan o'r car ond mae'r perchennog yn llwyddo i'w galw'n ôl.

Eleni mae'r ymgyrch wedi dychwelyd ac mae'r tîm yn edrych i'w ehangu i ardaloedd eraill yn yr AHNE, gan gynnwys Dinas Bran, Corwen a Phenycloddiau. Mae digwyddiadau i ymgysylltu â pherchnogion cŵn ac yna trosglwyddo gwybodaeth ynghylch yr ymgyrch iddynt wedi'u cynnal, lle mae'r ceidwaid yn rhoi bisgedi cŵn, tenynnau cŵn, bagiau pŵ a gwybodaeth.

Mynychodd y staff sgwrs gan Stephen Jenkinson, arbenigwr ymgynghorol ar gerdded cŵn yng nghefn gwlad, a dywed bod y canlyniadau gorau i'w gweld mewn llefydd ble mae'r ymgyrchoedd yn gadarnhaol. Dyna beth mae'r tîm AHNE yn ceisio'i gyflawni ond mae yna rai posteri sy'n taro gyda neges galed hefyd. Mae Stephen yn awgrymu rhoi cyngor i berchnogion ynghylch ble gallant adael eu cŵn oddi ar y tennyn, ond yn cadw'r cŵn dan reolaeth fanwl, gan sicrhau, os ydych chi'n rhoi arwyddion yn dweud bod defaid yn y cae, eu bod nhw mewn gwirionedd yn pori yn y cae hwnnw, gan fod pobl yn dod yn ddall i hen bosteri ac yn tueddu i'w hanwybyddu.

Mae Stephen wedi ymweld â Moel Famau ac ardaloedd cyfagos eraill ac rydym yn aros ar adroddiad ganddo.

Mae'r tîm AHNE hefyd wedi cwrdd â swyddog cymunedol ac addysg o'r Dog's Trust a gobeithiwn gynnal digwyddiadau ar y cyd dros y ddwy flynedd nesaf.

### **Cwestiynau i Rachel**

Gofynnodd HD a oedd y tenynnau cŵn a roddwyd am ddim yn rhai hyd sefydlog. Mae'r rhan fwyaf o'r tenynnau a brynir o hyd sefydlog. Roedd nifer fechan o denynnau estynadwy, fodd bynnag, pan roddwyd y rhain i bobl, rhoddwyd cyngor i berchnogion cŵn am eu defnyddio yn yr ardaloedd lle'r oedd da byw. Os sicrhair cyllid ar gyfer yr ymgyrch y flwyddyn nesaf, bydd yr holl denynnau o hyd sefydlog.

Gofynnodd JH a oes posibilrwydd y bydd ardal ddiogel wedi'i ffensio i ymarfer cŵn yn y goedwig. Mae'r rhain yn dod ar gael fwyfwy ar dir preifat am gost fesul awr. Pe bai CNC yn gwneud hyn, gyda phwy fyddai'r cyfrifoldeb / atebolrwydd / cynnal a chadw yn gorwedd a sut y byddai'n cael ei fonitro os na all cŵn gymysgu? Dywedodd RJ ei bod hi'n gweithio gyda CNC gyda'r gobaith y bydd llwybr yn cael ei greu drwy'r goedwig lle gall cŵn fod oddi ar y tennyn i ffwrdd oddi wrth dda byw.

Tynnodd JH sylw at y ffaith bydd gan y sioe gŵn ar y Gogarth ddefaid yn bresennol i godi ymwybyddiaeth. Digwyddiad ar y cyd yw hwn rhwng y Parc Gwledig a'r ymddiriedolaeth genedlaethol ar 16eg Mehefin Mae RJ yn gobeithio cael defaid ar ddiwrnod hwyl y teulu Moel Famau ar 21 Gorffennaf.

A oes problemau gyda baw cŵn? Oes, gellir dal afiechyd. Nid oedd eisiau cymryd unrhyw beth i ffwrdd o'r ymgyrch a fyddai'n peri pryder, felly gallai hyn fod yn ffocws yn y dyfodol. Gofynnodd JH am leoedd i roi bagiau pŵ.

Dywedodd RJ fod dau fin baw cŵn yn awr ar Foel Famau, un yn y maes parcio ac un oddeutu 200 metr i fyny'r prif lwybr. Ni all y tîm ymdopi â chost unrhyw finiau ychwanegol ac nid oes ganddynt amser i'w gwagio. Mae cyflwyno biniau hefyd wedi creu problem sbwriel. Byddai ychwanegu mwy o finiau ar hyd llwybrau yn gwthio'r broblem i gefn gwlad ehangach.

### **Diweddariad ar Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**

#### Cyngor Sir Ddinbych

Dim diweddariad i'w roi ar hyn o bryd.

#### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorodd Victoria Currie ei bod hi'n dal i weithio ar y Cynllun Datblygu Gwledig drafft ar hyn o bryd. Mae'r dogfennau asesu a rennir gydag aelodau'r FfMLI yn sail i ddrafft ar gyfer y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd ac maent yn asesiadau o sut mae Conwy wedi symud ymlaen yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf. Bydd y sefyllfa gyfredol yn ffurfio sail i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy nesaf.

|        |   |  |
|--------|---|--|
| PG 8.1 | VC i anfon y dogfennau diweddaraf at HA.                |  |
| PG 8.2 | HA i ddsbarthu'r dogfennau diweddaraf i'r aelodau       |  |
| PG 8.3 | Aelodau FfMLI i anfon sylwadau ar ddogfennau asesu i VC |  |

Gofynnodd HD a oedd unrhyw fonitro rheolaidd o waith y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Dywedodd VC y cyflwynir adroddiad blynyddol i LIC a bod copi wedi'i roi ar wefan CBSC. Gofynnodd HD a allai'r FfMMLI gael adolygiad blynyddol o'r cynnydd wrth gyflwyno'r cynllun, a hefyd tynnodd sylw at y ffaith nad oedd sôn am y FfMMLI yn y dogfennau asesu.

Cyfeiriodd CM at y sôn am lwybr beicio o Fetws y Coed i Lyn Alwen yn un o'r asesiadau ond nid oedd unrhyw fanylion am y llwybr na sut i ddod o hyd iddo. Ychwanegodd AW fod hyn yn rhan o Lwybr Triban ac roedd yn credu eu bod ar wefan Hiraethog. Awgrymodd CM y gallai VC ychwanegu dolenni cyswllt i'r llwybrau yn y dogfennau asesu.

Awgrymodd PF weithio gyda Thwristiaeth Gogledd Cymru i hyrwyddo llwybrau. Ychwanegodd HA y gellid ychwanegu llwybrau beicio mynydd yng Nghonwy at ridenorthwales.co.uk a MBWales.com. Mae HA yn fodlon trafod ymhellach gyda VC a SW.

## **Cynlluniau Gwaith ar gyfer 2018 - 19**

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Gwirfoddolwch Giât:** Mae arolwg o gatiâu posibl wedi dechrau, ond mae'n cymryd amser gan ddefnyddio Symology, ein system rheoli asedau. Ar hyn o bryd mae SW yn ysgrifennu gweithdrefnau ar gyfer y cynllun ac yn dod o hyd i gontractwyr a hoffai fynegi diddordeb mewn bod yn rhan o'r cynllun. Bydd yn cadw'r grŵp yn gyfoes.

**Gwaith ar Lwybr Arfordir Cymru:** Mae SW yn bwriadu gwneud gwelliannau ar arwyddion, arwyneb y llwybr ar safle'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ar Drwyn y Fuwch ac arwyneb y llwybr ym Morfa Madryn gyda dyraniad cynnal a chadw eleni gan CNC.

**Cerdded Conwy Walks:** Mae SW yn cefnogi grŵp o arweinwyr cerdded gwirfoddol fel ysgrifennydd y grŵp i gynnal rhaglenni teithiau misol. Ar hyn o bryd maent yn gwneud cais am gyllid pellach o'r Gist Gymunedol ar gyfer hyfforddi arweinwyr cerdded. Mae'r Grŵp yn aelodau o'r Bartneriaeth Awyr Agored a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy. Maent yn gweithio ar wella cysylltiadau gyda darparu teithiau cerdded ar gyfer defnyddwyr dydd yn ysbyty Nant y Glyn a'r Grŵp Adfer a Mind Llandudno.

**Tudalennau gwefan Teithiau Cerdded CBSC:** Ar hyn o bryd mae SW yn diweddarau tudalennau cerdded ar wefan CBSC yn dilyn uwchraddio'r wefan.

Ychwanegodd y Cyng Milne y bydd yn annog busnesau ar Lwybr Arfordir Cymru i ddod yn bwyntiau llenwi poteli dŵr. Cyhoeddwyd hyn yn ddiweddar fel dyhead gan y Gweinidog Hannah Blythyn i ychwanegu pwyntiau llenwi ar hyd llwybr yr arfordir. Ychwanegodd y Cyng Milne y byddai pwyntiau dŵr newydd yn cael eu hychwanegu pan fyddai hynny'n ymarferol yn economaidd.

Gofynnodd Duncan a oedd unrhyw ganllaw ar gael ar gyfer Gwirfoddolwch Giât - mae SW yn gweithio arno ar hyn o bryd.

Gofynnodd AW beth fyddai'r polisi o ran perchnogaeth a chynnal a chadw yn y dyfodol. Gallai'r tirlfeddiannwr gydsynio i'r gwaith rŵan ond efallai na fydd am gymryd cyfrifoldeb ymhén 10 mlynedd.

### Cyngor Sir Ddinbych

**Llwybr Arfordir Cymru:** Yn ychwanegol at y gyllideb cynnal a chadw bach a dderbyniwyd gan CNC, mae HA wedi sicrhau cyllid i wella Llwybr Arfordir Cymru rhwng NCN5 yn nhraeth Presthaven a'r llwyfan gwylio ar gyfer nythfa'r môr-wenoliaid bach. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan brosiect LIFE+ môr-wenoliaid y UE. Disgwylir i'r gwaith ddechrau ym mis Medi a bydd yn caniatáu mynediad i goestys cadair, cadeiriau olwyn a cherddwyr i'r system twyni.

**Ymgyrch Mynediad Cyfrifol:** Mae'r AHNE wedi lansio ymgyrch mynediad cyfrifol mewn partneriaeth â Ride North Wales ac Oneplanet Adventure sy'n rhedeg y Ganolfan Beicio Mynydd yng Nghoed Llandegla. Mae'r ymgyrch yn amlygu natur sensitif rhostir grug a sgri calchfaen. Mae'n annog defnyddwyr i gadw at y llwybrau cywir i leihau difrod ac aflonyddwch i'r cynefinoedd bregus. Mae'r ymgyrch yn cynnwys cyfres o gyfweiliadau i'w cyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol a YouTube, taflen o'r llwybr beicio rhwng Coed Llandegla a Llangollen ac mae'r tîm AHNE wedi bod yn rhan o reidiau grŵp i siarad â beicwyr mynydd am y rhostir.

**Llwybrau Hyrwyddedig:** Mae HA hefyd yn gweithio ar uwchraddio rhan Sir Ddinbych o Lwybr Hiraethog ac adnewyddu'r Ffordd Gogledd y Berwyn rhwng Corwen a Llangollen. Bydd rhai ychwanegiadau hefyd i gyfres y teithiau cerdded Milltiroedd Cymunedol yng ngogledd y sir.

Atgoffodd PF y Fforwm am grantiau'r Gist Gymunedol a dywedodd nad oedd grwpiau yn Sir Ddinbych yn manteisio arno. HA i geisio edrych ar ei hyrwyddo i grwpiau cerdded trwy KD a HS.

|        |   |           |
|--------|---|-----------|
| PG 8.4 | HA i atgoffa staff CSDd am y Gist Gymunedol i weld a ellir cael arian trwy grwpiau cerdded neu Grwpiau Cyfeillion | Cwblhawyd |
|--------|---|-----------|

### Adolygu aelodaeth a phynciau yn y dyfodol ar gyfer y FfMLI

Hysbysodd HA y Fforwm bod gan FfMLIDCSDd 19 aelod ar hyn o bryd a gofynnodd a oedd aelodau'n teimlo bod y Fforwm yn methu unrhyw faes o ddiddordeb. Mae'r cydbwysedd rhwng cynrychiolaeth Conwy a Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn 9 ar gyfer Conwy a 10 ar gyfer Sir Ddinbych.

Awgrymodd HD gynrychiolaeth o gymdeithas pysgota ac awgrymodd AW y gymuned amaethyddol a chyflwyno enw ffarmwraig yn Nyffryn Clwyd. Amlygodd HD hefyd nad yw lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli ar y Fforwm. Yn ddiweddar, cyfarfu PF â rhywun sy'n gweithio gyda sefydliad ym Mhenmaenmawr sy'n gweithio gyda grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Gwahodd cyswllt PF i gyfarfod yn y dyfodol.

Cytunodd y Fforwm y dylai HA wahodd Laura Bailey i'r Fforwm. Gwnaeth Laura gais i Fforwm blaenorol Conwy ond ni allai HA gysylltu â hi pan ffurfiwyd FfMLIDCSDd. Roedd JH ers hynny wedi rhoi HA mewn cysylltiad â Laura. Bydd HA hefyd yn gwahodd cyswllt AW i lenwi cais i ymuno â'r Fforwm â diddordeb amaethyddol. Mae HA ar hyn o bryd yn gweithio ar bolisi preifatrwydd ar gyfer FfMLIDCSDd ac yn cael cymorth gan CSDd i sicrhau bod yr holl waith papur yn cydymffurfio â GDPR.

|        |   |  |
|--------|---|--|
| PG 8.5 | HA i wahodd Laura Bailey i ymuno â'r Fforwm ac AW i gysylltu i gwblhau'r cais.  |  |
| PG     | HA i gysylltu â PF i wahodd ei gyswllt ym Mhenmaenmawr i gyfarfod yn y dyfodol. |  |

### Pynciau ar y Rhaglen yn y Dyfodol

Awgrymodd HD sgwrs gan y ddwy sir ar sut y defnyddir gwirfoddolwyr, faint o oriau, sut rydym yn eu defnyddio, faint sy'n cael ei wneud, pa dasgau sy'n cael eu cyflawni, sydd angen mwy?

Awgrymodd DB eitem ar hawliau tramwy a gollwyd ac amlygodd HF fod 40 llwybr wedi cael eu colli ym mhlwyf Tremeirchion. Mae DB wedi bod yn rhan o brosiect ffyrdd coll yng Nghonwy a elwir yn Adfer y Cofnod, gan godi ymwybyddiaeth o'r dyddiad cau o 2026.

**Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:**

Penderfynodd y Fforwm barhau â 4 cyfarfod y flwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd Mehefin a Medi yn gynnar gyda'r nos. Cynhelir cyfarfodydd y gaeaf (Rhagfyr a Mawrth) yn ystod y dydd.

- 6 Medi 2018
- 6 Rhagfyr 2018

DRAFT